

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 25 Chwefror, 2020

- YN BRESENNOL:** Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)
- Cynghorwyr K P Hughes, Vaughan Hughes, R LI Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret M Roberts
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cydmeithasol  
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 6)  
Rheolwr Sgriwtini (AD)  
Swyddog Sgriwtini (SMR)  
Swyddog Pwyllgor (MEH)
- YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Glyn Haynes.  
Cynghorydd Llinos M Huws – Arweinydd y Cyngor.
- Mr Dafydd Gruffydd – Menter Môn.
- Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig,  
Mrs Anest Frazer – Yr Eglwys yng Nghymru,  
Mr Dyfed W Jones – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd.
- HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Jonathan Sweet – Gwasanaeth Ambiwylans GIG Cymru – Rheolwr Gweithrediadau (ar gyfer eitem 4),  
Mr Stephen Sheldon – Gwasanaeth Ambiwylans GIG Cymru – Rheolwr Ardal (ar gyfer eitem 4).
- Mrs Sian Purcell – Prif Swyddog Medrwn Môn (ar gyfer eitem 5),  
Mr Andrew Hughes – Cadeirydd Bwrdd Rheoli Medrwn Môn (ar gyfer eitem 5).
- Rheolwr – Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol  
Cynghorau Gogledd Cymru (NC) (ar gyfer eitem 6),  
Swyddog Cynllunio Argyfwng (GH) (ar gyfer eitem 6).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

## **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

## **3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir:-

- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2019 yn amodol ar enw'r Cynghorydd Dafydd Roberts yn cael ei gynnwys ar y rhestr ymddiheuriadau;
- Cofnodion y pwyllgor arbennig a gynhaliwyd ar 21 Ionawr, 2020.

## **4 YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETH AMBIWLANS CYMRU**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jonathan Sweet, Rheolwr Gweithrediadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru GIG a Stephen Sheldon – Rheolwr Ardal, i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad ar berthynas Gwasanaeth Ambiwylans Cymru â'r Cyngor.

Rhoddodd y Rheolwr Gweithrediadau gyflwyniad i'r Pwyllgor a dywedodd fod y gwasanaeth ambiwlans wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd gan symud o fod yn wasanaeth cludiant yn bennaf, i un sy'n darparu gofal clinigol, a gwasanaethau cludiant sydd â phwyslais clinigol ar draws Cymru. Dywedodd fod 3 gorsaf ambiwlans yn Ynys Môn a 41 o staff. Rhoddodd wybodaeth ystadegol bellach i'r Pwyllgor am flaenoriaethau o ran categorïau coch, oren a gwyrdd digwyddiadau. Fodd bynnag, yn ystod 2019/2- mae patrwm y galw ar gyfer y gwasanaeth yn parhau i newid yn enwedig yn y maes galw 'coch' lle mae cynnydd sylweddol wedi'i weld; mae hyn ynghyd â nifer o ffactorau eraill wedi arwain at ostyngiad yn yr amseroedd ymateb. Nododd iddi fod yn flwyddyn heriol ar draws y sector iechyd yng Nghymru ac ers cyflwyniad y model ymateb clinigol ym mis Hydref 2015, bod ymateb y Gwasanaeth i'r galwadau categori coch wedi disgyn o dan y targed o 65% ond bod y gwasanaeth ambiwlans yn cydweithio â byrddau iechyd er mwyn datrys y mater. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau gweithredu er mwyn gwell perfformiad a thrawsnewid y gwasanaeth ac yn enwedig mewn perthynas â:

- Cymryd rôl arwain system o ran gofal heb ei drefnu, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.
- Uwch Barafeddygon Ymarferol (APPs) yn gallu trin cleifion yn fwy effeithiol yn eu cartrefi, heb fod angen gofal yn yr ysbyty.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau i gleifion sydd wedi syrthio, neu gleifion sydd â dementia neu iechyd meddwl.
- Cyfraddau "hear and treat" wedi gwella.
- Parhau i weithio gyda'r byrddau iechyd ar lwybrau cyfeirio ar gyfer nifer o gyflyrau, sy'n caniatáu i'r gwasanaeth gyfeirio at wasanaethau yn y gymuned gyda Meddy Teulu SICAT yn gwneud penderfyniadau clinigol.

- Cynyddu nifer y staff sy'n gweithio ar sift yn ystod cyfnod y gaeaf
- Adolygiad galw a capasiti wedi mynd i'r afael ag effeithlonrwydd roster.

Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i edrych ar ddatrysiadau cynaliadwy er mwyn gallu mynd i'r afael â materion cymhleth.

Adroddodd y Rheolwr Gweithrediadau ymhellach fod Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth ambiwlans wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a chyfeiriodd yn benodol at y cynllun Gwasanaeth Night Owl a ymatebodd i 115 o gleifion a oedd wedi 'disgyn yn y cartref' gyda dim ond 11 o gleifion wedi gorfod mynd i'r ysbyty. Nododd fod cynllun, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Gwasanaeth Tân ac Achub a oedd yn cynorthwyo â phobl a oedd yn 'Disgyn yn y Cartref', cynllun oedd hwn i gefnogi'r Gwasanaeth Ambiwllans pan mae'r gwasanaeth â galw uchel. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi stopio'r cyllid ar gyfer y cynllun hwn ond mae trafodaethau'n parhau er mwyn ail fuddsoddi yn y cynllun.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gweithrediadau at y gwaith gyda'r trydydd sector ac yn benodol at y Gwasanaeth Ambiwllans Sant loan mewn perthynas â'r gwasanaethau ymateb i bobl oedd wedi 'Disgyn'. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Ambiwllans Sant loan yn wasanaeth ag adnoddau cyfyngedig sydd ond yn gallu darparu adnoddau yn ystod y cyfnodau prysuraf ar benwythnosau ledled Gogledd Cymru oherwydd eu materion capasiti eu hunain; mae trafodaethau yn parhau gyda Gwasanaeth Ambiwllans Sant loan o ran sut y gallant gynyddu eu capasiti. Cafodd y prif enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir eu hadrodd arnynt fel â ganlyn:-

- Rhoddwyd cefnogaeth i Dîm Ambiwllans Cymru yn ystod y trafodaethau ar y prosiect Wylfa Newydd arfaethedig a sut y gellid lliniaru'r pwysau ar y gwasanaeth yn ystod y cyfnod adeiladu a thu hwnt;
- Cynllun Night Owls - cyfarodydd wedi eu cynnal bob yn ail fis rhwng yr awdurdod lleol a'r Gwasanaeth ambiwlans er mwyn trafod cyfleoedd i wella gwytnwch cymunedol. Rhoddir hyfforddiant i staff awdurdod lleol mewn cymorth cyntaf er mwyn gallu ymateb i alwadau 'coch' ac i allu defnyddio diffibriwlydd cymunedol;
- Mae gwaith y Grŵp Cynghori Diogelwch a'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn hanfodol er mwyn hysbysu'r Gwasanaeth Ambiwllans am y gweithgareddau a gynhelir ar yr Ynys er mwyn sicrhau os bydd digwyddiad yn codi y gall y Gwasanaeth Ambiwllans ymateb yn briodol i ddigwyddiadau o'r fath. Mae'r tywydd garw wedi profi'r cynlluniau hyn yn ddiweddar pan gaewyd Pont Britannia.

Nododd hefyd bod Gwasanaeth Ambiwllans Cymru o fewn ei Gynllun Tymor Canol Integredig 2021/23 wedi comisiynu Adolygiad Annibynnol er mwyn mynd i'r afael â cheisio lleihau amseroedd ymateb a gwelwyd bod angen 537 yn ychwanegol o staff rheng-flaen erbyn 2024/25; mae gwaith cynllunio gweithlu yn cael ei ymgymryd ag ef ar hyn o bryd er mwyn ceisio gweithredu'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adolygiad. Nododd y cafwyd heriau wrth geisio recriwtio staff mewn ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru ac mae'r Gwasanaeth Ambiwllans yn mynd i'r afael â'r materion hyn drwy gynnig sesiynau recriwtio.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at yr angen i gynyddu nifer y staff ambiwlans a phenodi staff rheng-flaen ychwanegol erbyn Mawrth 2021. Codwyd cwestiynau a fydd hi'n her recriwtio staff fel mewn proffesiynau meddygol eraill. Ymatebodd y Rheolwr Gweithrediadau bod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru wedi ymrwymo i gynyddu'r gweithlu drwy ychwanegu 131 o staff ychwanegol ar draws ardal Gogledd Cymru erbyn Mawrth 2021. Bydd cyfran sylweddol o'r staff hynny yn Dechnegwyr Ymateb Argyfwng y gellir eu recriwtio a'u hyfforddi yn fewnol gan y Gwasanaeth Ambiwllans. Bydd recriwtio Parafeddygon yn fwy o her gan y bydd angen iddynt gael eu hyfforddi drwy systemau'r colegau. Codwyd cwestiynau pellach, tra bo'r cynnydd yn lefelau staffio'r Gwasanaeth Ambiwllans yn cael ei werthfawrogi mae'n rhaid i gleifion ddisgwyl pan fyddant yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Gwynedd oherwydd bod yn rhaid i staff y Gwasanaeth Ambiwllans ddisgwyl i drosglwyddo'r claf i'r staff meddygol. Ymatebodd y Rheolwr Gweithrediadau gan ddweud bod trafodaethau ar y gweill gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cael proses drosglwyddo fwy effeithlon o ran trosglwyddo cleifion i'r ysbyty; mae'r Gwasanaeth Ambiwllans yn ceisio trin cleifion yn y cartref a sicrhau gwasanaethau yn y gymuned;
- Holwyd a oedd y gwasanaeth Ambiwllans yn ddigon gwydn yn Ynys Môn a Gogledd Cymru er mwyn gallu ymdopi â'r posibilrwydd o achosion difrifol o'r Coronafeirws. Ymatebodd y Rheolwr Gweithrediadau gan ddweud bod holl staff y Gwasanaeth Ambiwllans wedi derbyn hyfforddiant priodol yn y defnydd o offer amddiffynnol a phrosesau glanhau trylwyr rhag ofn i achosion o'r Coronafeirws gyrraedd;
- Cyfeiriwyd at y problemau traffig posibl wrth deithio i borthladd Caergybi ar yr A55 o ganlyniad i brexit. Holwyd am yr effaith posibl ar y Gwasanaeth Ambiwllans. Ymatebodd y Rheolwr gweithrediadau gan ddweud y gall fod yn broblem pan fydd ciwiau ar yr A55 ac y gall amseroedd ymateb gael eu heffeithio arnynt.
- Cyfeiriwyd at y cynllun 'disgyn yn y cartref' a gwaith y tîm Night Owls er mwyn iddynt allu helpu pobl sy'n disgyn yn y cartref. Awgrymodd Aelod o'r Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cael taflen yn cynghori pobl beth i'w wneud petai nhw'n disgyn yn y cartref. Dywedodd y Rheolwr Gweithrediadau bod y Gwasanaeth Ambiwllans yn mynychu Digwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau maent yn eu darparu. Dywedodd y bydd y cynllun Galw Gofal o 1 Mawrth, 2020 yn gallu trosglwyddo galwadau drwy'r system llinell alwadau i'r Gwasanaeth Ambiwllans;
- Cyfeiriwyd at lwyddiant y gwasanaeth Night Owls a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn ymateb i unigolion sy'n disgyn. Holwyd pa brosiectau eraill sydd yn eu lle rhwng y Gwasanaeth Ambiwllans a'r Cyngor Sir. Ymatebodd y Rheolwr Gweithrediadau drwy ddweud, er mwyn gwella'r ymateb i alwadau 'coch', yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r awdurdod lleol er mwyn gallu defnyddio darpariaeth 'ffonau clyfar' er mwyn galluogi Wardeiniaid Traeth i gael

mynediad yn ystod misoedd yr haf i ddiffibriwlyddion Cymunedol er mwyn gallu mynychu achosion brys a allai ddigwydd mewn ardaloedd gwledig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth yn derbyn adroddiadau blynyddol ar waith Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Ambiwlans.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## **5 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA MEDRWN MÔN**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Sian Purcell, Prif Swyddog – Medrwn Môn a Mr Andrew Hughes – Cadeirydd Bwrdd Rheoli Medrwn Môn i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Swyddog – Medrwn Môn ar y gwaith a gafodd ei ymgymryd ag ef gan Medrwn Môn yn ystod 2018/19 a'r cynnydd ar ddatblygu'r gwaith partneriaeth o fewn y Cyngor. Roedd copi o Adroddiad Blynyddol 2018-19 wedi'i atodi i'r adroddiad.

Adroddodd Prif Swyddog Medrwn Môn mai prif nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn a blaenllaw i ddatblygu potential yr Ynys. Mae Medrwn Môn yn ran o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), sy'n bartneriaeth rhwng y Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mae Medrwn Môn yn un o 19 o CGSau yng Nghymru. Adolygwyd trefniadau'r bartneriaeth genedlaethol, Cefnogi Trydydd Sector Cymru, yn ystod 2017-18 a 2018-19. 2018/19 oedd ail flwyddyn rhaglen newid uchelgeisiol Cefnogi Trydydd Sector Cymru a oedd yn canolbwyntio ar wella'r effaith y caiff Medrwn Môn fel partneriaeth wrth gefnogi'r trydydd sector yng Nghymru i ffynnu.

Nododd fod Medrwn Môn wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir er mwyn datblygu'r 'Rhaglen Cynllunio Lle' ar gyfer yr Ynys. Mae 'Cynllunio Lle' yn edrych ar sut y gellir gwneud cymunedau yn gryfach ac yn fwy gwydn yn y dyfodol drwy ddeall yr hyn sydd gan y cymunedau hynny o ran asedau – adeiladau, llecynnau gwyrdd, sgiliau a gwybodaeth, grwpiau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus. Cyfeiriodd at y cymorth a roddwyd gan Medrwn Môn wrth sefydlu Cyngor Sir Seiriol ac mae gwaith bellach yn cael ei ymgymryd ag ef o fewn Ward Twrcelyn fel rhan o'r 'Rhaglen Cynllunio Lle'.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog - Medrwn Môn at y cynllun Linc Cymunedol Môn y mae Medrwn Môn yn gweithredu fel pwynt mynediad unigol er mwyn i bobl gael gwybodaeth am sefydliadau trydydd sector. Mae Linc Cymunedol yn derbyn cyswllt uniongyrchol gan unigolion ond hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gan bartneriaid yn y Cyngor Sir ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Medrwn Môn hefyd wedi ymwneud â'r rhaglen 'Camau Cynnar Gyda'n Gilydd' sydd â'r nod o hwyluso'r trawsnewidiad o blismona i fod yn rhywbeth aml-asiantaeth, seiliedig ar

Brofiadau Niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) sy'n galluogi ymyrraeth gynnar a mynd at wraidd y mater.

Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Rheoli bod Medrwn Môn bellach wedi sefydlu ffyrdd newydd o weithio a'i fod yn ymgysylltu â thrigolion yr Ynys er mwyn galluogi ymgysylltiad cyhoeddus â chymunedau lleol.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd yn yr Adroddiad Blynyddol at yr angen i recriwtio ymddiriedolwyr ychwanegol i fod yn aelodau o Fwrdd Rheoli Medrwn Môn. Holwyd i ba raddau oedd y sefydliad yn sicrhau bod unigolion â sgoliau penodol yn cael eu penodi. Ymatebodd y Prif Swyddog - Medrwn Môn bod grwpiau gwirfoddol o fewn cymunedau yn enwebu cynrychiolydd i gael ei ystyried ar y Bwrdd Rheoli ond pwysleisiodd efallai nad fyddai gan rai unigolion y lefel o sgiliau angenrheidiol. Mae angen i hyrwyddo lefelau sgiliau unigolion e.e. Adnoddau Dynol, TG, sgiliau ariannol a sgiliau rheoli;
- Cyfeiriwyd at y Timau Adnoddau Cymunedol o fewn y tair ardal sydd wedi eu hadnabod yn Ynys Môn. Codwyd cwestiynau am rôl Medrwn Môn o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Ymatebodd Prif Swyddog Medrwn Môn fod staff Medrwn Môn wedi derbyn hyfforddiant i gefnogi trigolion o fewn y meysydd sydd wedi eu hadnabod er mwyn gallu cael mynediad i gyfleusterau sydd ar gael iddynt.
- Holwyd beth oedd y prif risgiau yr oedd Medrwn Môn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod. Cyfeiriwyd at y ffaith y bydd pwysau ychwanegol ar y Trydydd Sector i gefnogi sefydliadau o fewn cymunedau lleol. Ymatebodd Prif Swyddog Medrwn Môn mai adnoddau ariannol yw'r prif risg gan fod prosiectau wedi lleihau o fod yn rhai 3 blynedd i rai blwyddyn. Nododd y gall hyn roi pwysau ar y gwaith o reoli prosiect cynlluniau. Dywedodd hefyd bod yr ansicrwydd o ran Brexit wedi rhoi pwysau ychwanegol ar sefydliadau gwirfoddol;
- Holwyd sut oedd Medrwn Môn yn annog pobl i wirfoddoli ac yn enwedig yr anawsterau i bobl allu gwirfoddoli yn ystod oriau anghymdeithasol ac ar benwythnosau. Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen annog pobl ifanc i wirfoddoli yn eu cymunedau. Ymatebodd Prif Swyddog Medrwn Môn drwy ddweud bod pobol yn gwirfoddoli o fewn eu cymunedau ond bod angen cydbwysedd o ran y gwaith y gall pobl ymgymryd ag ef.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Medrwn Môn am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD gofyn i Medrwn Môn fynychu'r cyfarfod hwn bob blwyddyn er mwyn adrodd yn ôl ar eu gwaith ar yr Ynys ac er mwyn i'w bartneriaeth â'r Cyngor allu cael ei graffu arno.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## **6 GWASANAETH CYNLLUNIO ARGYFWNG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Neil Culff, Rheolwr Rhanbarthol, Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru a Mr Gwyn Hughes, Swyddog Cynllunio Argyfwng, i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – diweddariad ar y cyd gan y Rheolwr Rhanbarthol a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar faterion Cynllunio Argyfwng.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mai pwrpas yr adroddiad oedd er mwyn darparu diweddariad ar y rhaglen o waith rhanbarthol ar gyfer cynllunio ac ymateb i argyfwng a'r rhai hynny o fewn y Cyngor ei hun. Nododd bod angen profi gwytnwch trefniadau cynllunio argyfwng a threfniadau parhad busnes drwy ymarferion. Bydd ymarferion argyfwng yn cael ei hymgymryd â nhw er mwyn gweld pa mor barod yw'r awdurdod i ddelio â phethau megis tywydd garw er enghraifft.

Rhoddodd y Rheolwr Rhanbarthol, Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru gyflwyniad ac fe adroddodd bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru trwy'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru (NWC-REPS), sy'n cael ei arwain gan Gyngor Sir y Fflint. Nodwyd fod NWC-REPS yn adrodd i Fwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys swyddog o bob un o'r Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid i'r gwasanaeth. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am raglenni gwaith rhanbarthol ac yn eu monitro. Nodwyd fod gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio argyfwng ac ymateb i argyfyngau dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd ar gyfer Argyfyngau a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996. Nododd y cafodd y cafodd y Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd ar gyfer Argyfyngau a Gwybodaeth Gyhoeddus) eu hadolygu yn 2019. Roedd dyletswydd ar yr Awdurdod I baratoi cynllun oddi ar y safle ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa ond nad oedd hyn bellach yn ofyniad.

Adroddodd y Rheolwr Rhanbarthol ar y ffrydiau gwaith y mae'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng yn ymgymryd â nhw:-

- **Pandemig Ffliw** – mae gwaith yn cael ei ymgymryd ag ef ar draws y rhanbarth ar y cyd â'r Gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol mewn perthynas â threfniadau parodrwydd ar gyfer pandemig ffliw y mae'r posibilrwydd yn cael ei ystyried yn 'uchel iawn' ar y Gofrestr Risg Genedlaethol a Chymunedol.
- **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Grŵp '4x4 Response Wales'** – mae gwaith o fewn y trydydd sector yn darparu cludiant wrth gefn ar gyfer cyfnodau o dywydd garw.
- **Cynllun Argyfwng Ffordd Glandwr, Llangedfni** – gwaith wedi'i ymgymryd ag ef gyda CNC er mwyn paratoi cynllun argyfwng penodol;
- **Prosiect EXODUS (rhannu gwybodaeth am bobl fregus)** – adnabod pobl fregus mewn ardaloedd lle mae risg o lifogydd petai angen gwagio'r ardal oherwydd llifogydd.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at y gweithgareddau cynllunio argyfwng diweddar a gyflawnwyd o fewn yr Awdurdod fel a ganlyn:-

- **Profi Cynlluniau Rheoli Parhad Busnes** – Ymarfer Synergedd, Ebrill 2019
- **Cynlluniau Rheoli Parhad Busnes Gwasanaeth** – diweddarau yn flynyddol;

- **Adroddiad Archwilio Mewnol - Parhad Busnes Gwasanaeth** - a oedd wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio ar 18 Chwefror, 2020.
- **Wylfa** - ymarfer bwrdd gwaith aml-asiantaeth wedi'i gynnal ym Medi 2020;
- **Hyfforddiant Staff** – Fforwm Cymru Gydnerth Leol yn trefnu hyfforddiant ar gyfer staff y Cyngor bob blwyddyn.

Cyfeiriodd y Rheolwr Rhanbarthol at y gweithgareddau a gynhelir yn y dyfodol fel â ganlyn:-

- **Dilysu'r Cynllun** – bydd angen i gynllun newydd neu ddiwygiedig gael ei ddilysu;
- **Cynllun Llygredd Arfordirol Cynghorau Gogledd Cymru** – cymryd ystyriaeth o'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiad marina Caergybi yn 2018;
- **Cynllunio adferiad** – canolbwyntio ar gynlluniau ar gyfer y broses adfer yn dilyn digwyddiadau mawr.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y sylw diweddar ar y Coronafeirws a holwyd a fyddai'r awdurdod yn barod petai achosion o'r fath yn cyrraedd Ynys Môn. Nodwyd fod nifer i longau plaser yn ymweld ag Ynys Môn. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd drwy ddweud y byddai'r awdurdod yn gweithio â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn dilyn y canllawiau angenrheidiol ar gyfer delio â sefyllfa o'r fath.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod llygredd arfordirol i'w ddelio ag ef o fewn cynllun tair blynedd y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol. Ystyriwyd fod llifogydd arfordirol yn risg a bod risg i ardaloedd penodol. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei fod yn cydnabod fod rhannau o Ynys Môn lle mae mwy o berygl o lifogydd nag eraill. Roedd trefniadau aml-asiantaeth yn eu lle mewn achos o dywydd garw, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Rhanbarthol a'r Swyddog Cynllunio Argyfwng o'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD i'r Pwyllgor dderbyn adroddiadau yn y dyfodol ar barodrwydd y Cyngor i gynllunio ar gyfer argyfyngau ac adroddiadau dilynol ar unrhyw achosion argyfwng rhanbarthol neu leol y mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## **7 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgrïwtini ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2020.

Adroddodd y Swyddog Sgrïwtini bod trefniadau wedi eu gwneud i aildrefnu'r cyfarfod ar 10 Mawrth, 2020 i'w gynnal ar 11 Mawrth, 2020. Nododd y bydd yr



eitem – Cydweithio a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach yn cael ei gynnal yng nghyfarfod 16 Mehefin, 2020.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhaglen waith hyd at Ebrill, 2020.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 o'r gloch

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES  
CADEIRYDD**